| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **22 MAI 2025** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 11 MAI 2025** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 11.3, Cyfathrebu Canlyniadau, yn nodi bod *"yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio gyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r bwrdd a'r uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob archwiliad fel y bo'n briodol."*

1.2 Ymhellach, nodir yn Safon 15.1, Cyfathrebu Ymgysylltiad Terfynol *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio rannu'r cyfathrebu terfynol i bartïon a all sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol."*

1.3 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 28 Ionawr 2025 hyd 11 Mai 2025.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2024-25 yn y cyfnod o 28 Ionawr 2025 hyd 27 11 Mai 2025:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 9 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 28 Ionawr 2025 hyd 11 Mai 2025, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd o Ystafelloedd Allanol | Corfforaethol | - | Digonol | Atodiad 1 |
| Safonau Digidol Addysg | Addysg | Ysgolion | Digonol | Atodiad 2 |
| Cludiant Ysgol | Addysg | Uned Reoli | Cyfyngedig | Atodiad 3 |
| Trefniadau Dosbarthu Biniau | Amgylchedd | Uned Gwastraff | Cyfyngedig | Atodiad 4 |
| Rheolaeth Categori – Amgylchedd | Priffyrdd, Bwrdeistrefol ac YGC | - | Cyfyngedig | Atodiad 5 |
| Rheolaeth Categori Corfforaethol – Dilyniant | Gwasanaethau Corfforaethol | Caffael | Cyfyngedig | Atodiad 6 |
| Glanhau Stryd | Priffyrdd, Bwrdeistrefol ac YGC | Bwrdeistrefol | Cyfyngedig | Atodiad 7 |
| Mân-ddaliadau – Dilyniant | Tai ac Eiddo | Eiddo | Cyfyngedig | Atodiad 8 |
| Grant Atal Digartrefedd 2023/24 | Tai ac Eiddo | Eiddo | Cyfyngedig | Atodiad 9 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

**3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 12 Mai 2025:

- Dilyniant Cronfeydd Ysgolion *(Addysg)*
- Clybiau Brecwast *(Addysg)*
- Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi Diogelu (*Corfforaethol)*

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 28 Ionawr 2025 hyd 11 Mai 2025, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

# DEFNYDD O YSTAFELLOEDD ALLANOL

## 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd archwiliad ar drefniadau a'r costau ynghlwm â chynnal cyfarfodydd mewn sefydliadau allanol i'r Cyngor. O fewn prif adeiladau'r Cyngor, mae amryw o ystafelloedd pwrpasol o wahanol faint ar gyfer cynnal cyfarfodydd, cynadleddau a hyfforddiant.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y defnydd a wneir o ystafelloedd allanol yn addas, gwirio'r costau ymglymedig ac os oedd opsiwn amgen addas o ystafelloedd cyfarfod y Cyngor ar gael ar y pryd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu echdynnu'r gwariant a wnaed ar logi ystafelloedd allanol o'r cyfriflyfr ariannol ynghyd â chanfod os oedd ystafell addas ar gael o fewn adeiladau'r Cyngor ar y pryd.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae nifer o ystafelloedd cyfarfod a hyfforddi pwrpasol wedi eu lleoli o fewn prif swyddfeydd y Cyngor, yn enwedig yn adeiladau Pencadlys. Yn ogystal ag ystafelloedd cyfarfod mae tair siambr ar gael, Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda yn y Pencadlys a Siambr Arfon yn adeilad Penrallt.

5.2 Yn hytrach na defnyddio'r ystafelloedd yma (neu unrhyw ystafell answyddogol arall megis ystafelloedd cyfarfod y llyfrgell a.y.b.) mae amryw o swyddogion y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd mewn sefydliadau allanol cyfagos am bris ychwanegol i'r Cyngor. Yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, mae dyletswydd foesol ar swyddogion y Cyngor i leihau costau fel bo'n briodol, gan gynnwys aberthu llogi ystafelloedd cyfarfod allanol, ond yn hytrach yn cynnal eu digwyddiad o fewn y Cyngor.

5.3 Detholwyd sampl o wariant o'r cyfrif 'Hurio Ystafelloedd' a gwiriwyd sampl o'r anfonebau. Wrth wirio manylion yr anfonebau yn erbyn argaeledd ystafelloedd cyfarfod y Cyngor gwelwyd bod ystafelloedd mewnol ar gael mewn 58% o achosion. E-bostiwyd sampl o swyddogion i holi os oeddynt wedi ystyried ystafelloedd cyfarfod y Cyngor cyn trefnu ystafell allanol, o'r ymatebion a dderbyniwyd (sef 50%), nodwyd eu bod wedi ystyried ystafelloedd y Cyngor ond nid oeddynt yn addas yn yr achosion yma oherwydd amryw o resymau e.e. maint a capasiti yr ystafell, angen lleoliad niwtral tu allan i'r Cyngor a.y.b.

5.4 Wrth wirio'r sampl uchod gwelwyd bod llawer o gostau ychwanegol wedi'u codio yn erbyn y cod gwariant 'hurio ystafell' e.e. lluniaeth, defnydd o adnoddau ychwanegol megis siart fflip a thaflunydd. Mewn sampl o 18 anfoneb gwelwyd bod cyfanswm o £3,221.52 yn sgil yr adnoddau/lluniaeth ychwanegol yma.

5.5 Gwiriwyd gwariant ar gyflenwyr penodol er mwyn sicrhau bod y cod gwariant cywir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hurio ystafelloedd a darganfuwyd bod y côd ariannol priodol wedi ei ddefnyddio, e.e. 'Hurio Ystafelloedd', 'Costau Amrywiol Hyfforddiant', 'Costau Cyfweliad' a 'Llogi cyfleusterau'.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r gwasanaethau perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Hysbysu staff o drefniadau llogi ystafelloedd mewnol y Cyngor ac i gynnwys y canlynol -**
  - **Yr angen i swyddogion i logi ystafelloedd mewnol sydd yn ddigonol at bwrpas h.y. llogi ystafell i 20 ar gyfer 15-20.**
  - **Cynnal cyfarfodydd mewn swyddfa yn hytrach nag ystafell gyfarfod os yw'r nifer sydd i fynychu yn gymharol isel.**
  - **Cyfyngu gwario ar luniaeth a chynhaliaeth cyfarfodydd, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir o fewn cyffiniau swyddfeydd arferol swyddogion.**

Atodiad 2

## SAFONAU DIGIDOL ADDYSG

### 1. Cefndir

1.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Safonau Digidol Addysg - HWB yn Ebrill 2019, sef cyfres o argymhellion a chanllawiau ar gyfer cynllunio, rheoli a defnyddio rhwydwaith TG digidol mewn ysgolion. Bwriad y safonau yw helpu ysgolion i ddeall, rheoli a gweithredu eu hamgylchedd digidol eu hunain neu gyda chymorth ym maes Technoleg Addysg. Mae Gwasanaeth TG Cyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth TG i ysgolion Gwynedd ac yn rhoi cymorth a chyfarwyddyd i'r ysgolion ar sut y gellir cyflawni'r Safonau hyn.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau TG priodol wedi'u sefydlu yn ysgolion Gwynedd ac yn unol â'r Safonau Digidol HWB. Er mwyn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cydymffurfiad a chynnydd yr ysgolion â Safonau Digidol Hwb sydd wedi eu hamlygu yn Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd a bod cadernid yn y trefniadau llywodraethu i alluogi'r cydymffurfiad.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Yn ystod yr archwiliad, darganfuwyd y cyhoeddwyd adroddiad "Ffocws Digidol" ar 25/05/2023. Paratowyd yr adroddiad ar y cyd gan Estyn a Llywodraeth Cymru ar statws ysgolion Gwynedd mewn perthynas â Safonau Digidol Addysg. Ble yn berthnasol, mae'r archwiliad wedi cyfeirio at yr adroddiad a rhoddwyd rhannol ddibyniaeth ar yr adroddiad wrth gyflawni'r archwiliad yma.

5.2 Yn ogystal, derbyniwyd copi o Safonau Digidol Addysg ar ffurf 'excel' gan Gwasanaeth Digidol Ysgolion Gwynedd, oedd yn cynnwys eu hymarferiad cadarnhau statws ar gyfer pob safon i ddehongli os yw ysgolion Gwynedd yn cyrraedd y Safonau hyn, neu ble nad oeddynt yn cyrraedd y safon, meddiannwyd gweithrediadau ar gyfer gweithio tuag at y safon.

5.3 Derbyniwyd Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd a gyhoeddwyd Haf 2021 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyngor yn 2020. Nodwyd yn y Strategaeth eu bod yn sicrhau eu bod yn cefnogi ysgolion ar gyfer cyflawni Safonau Digidol Addysg - Hwb.

5.4 Mae systemau Hwb ar wahân i systemau corfforaethol y Cyngor. Nid oes gan ysgolion fynediad i iGwynedd corfforaethol, fodd bynnag, mae staff ysgolion yn gallu defnyddio HunanWasanaeth er mwyn gweld slipiau cyflog ayb.

5.5 Nodir yn y Strategaeth y bydd cefnogaeth i'r rhwydwaith a chynnig ystod o ddyfeisiadau. Bydd pob ysgol yn derbyn gwasanaeth sylfaenol a fydd yn sicrhau bod y dyfeisiadau craidd a'r rhwydwaith yn cael eu cefnogi fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth craidd, sydd yn cael eu ariannu gan yr ysgolion.

5.6 Ni welwyd polisïau TG penodol wedi'i sefydlu gan ysgolion. Gwelwyd yng nghofnodion Gwasanaeth Digidol Ysgolion Gwynedd bod dyfeisiadau symudol 'USB' wedi eu gwahardd ar ddyfeisiadau Hwb. Yn ogystal, adroddwyd bod gan Gwasanaeth Digidol Ysgolion brosesau mewn lle ar gyfer rheoli diogelwch rhwydwaith a data'r ysgolion megis cyswllt diogelu i'r we, amddiffyniadau seibr megis gwrth firws ar gyfer holl galedwedd a dyfeisiadau ysgolion, polisi hidlo mewn lle sydd yn dilyn safonau hidlo Llywodraeth Cymru. Mynegir yn yr adroddiad "Ffocws Digidol", ar y cyfan bod ymdrechion Gwynedd i weithredu mesurau diogelu cadarn a diweddaru polisïau yn dangos ymrwymiad i ddiogelwch ar-lein.

5.7 Nodir yn y Safonau dylai fod 'strategaeth glir ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a'u rheoli' a 'bod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran seiber ddiogelwch'. Meddiannwyd tystiolaeth bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei redeg a gwelwyd rhestr bod unigolion wedi'i gofrestru i fynychu. Yn ogystal, gwelwyd bod templedi ar gyfer adrodd ar ymosodiadau seibr a pwyntiau cyswllt ar gael i'r ysgolion. Adroddwyd bod y cynllun gweithredu wedi ei gylchredeg yn dilyn yr hyfforddiant a thempled wedi ei rannu drwy Hwb.

5.8 Mae pob dyfais defnyddiwr ar y rhwydwaith i fod yn gyfarpar gradd menter, ac nid yn gyfarpar defnyddiwr cartref cyfatebol, a dylid ei gaffael gyda chyngor yr awdurdod lleol. Bwriedir cyflwyno newidiadau rhwydwaith cyn diwedd y flwyddyn academaidd 2024/25, a symud drosodd i ddefnyddio dyfeisiadau Hwb yn unig erbyn diwedd Medi 2025. Golygai na fydd unrhyw ddyfais heblaw dyfeisiadau mae'r awdurdod lleol yn eu rhoi ar y rhwydwaith yn gallu cysylltu.

5.9 Pan fydd y newidiadau rhwydwaith yn weithredol bydd pob dyfais gan gynnwys dyfeisiadau symudol yn eiddo'r ysgol yn cael eu rheoli gan ddatrysiad Rheoli Dyfeisiau Symudol 'MDM' yn ganolog. Bydd holl ddyfeisiau defnyddwyr ar y Hwb i gael fersiwn gyfredol o system weithredu a gefnogir ar hyn o bryd gan y prynwr.

5.10 Adroddwyd bod dyfeisiadau Hwb i gyd yn cael eu ffurfweddu a'u rheoli yn ddiogel gyda patsys a diweddariadau diogelwch yn cael eu gwthio allan yn rheolaidd.

5.11 Gofynnwyd am dystiolaeth ar gyfer sicrhau bod cabinet rhwydwaith data'r ysgolion yn cwrdd â Safonau Digidol Addysg gan gynnwys safonau gosod cebalu. Derbyniwyd gwybodaeth nad yw pob cabinet mewn ysgolion wedi'u diogelu gan gyflenwad pŵer na ellir amharu arno (UPS) ond gwelwyd bod polisi Safonau Ceblo TG Cyngor Gwynedd mewn lle a dylai bod unrhyw waith ceblo (newydd) i ddilyn y Safonau. Meddiannwyd enghreifftiau o dystysgrifau a dderbyniwyd yn dilyn gwaith gosod ceblau ac ymddengys bod cydymffurfiad â'r Safonau a'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch priodol, ond nid ar bob achlysur y caiff tystysgrif ei chyflwyno.

5.12 Ar gyfer sicrhau bod dyfeisiadau yn derbyn diweddariadau i'r system weithredu a rhaglenni i ryddhau diweddariadau i ddyfeisiadau Hwb yn brydlon bydd rhaid sicrhau bod ysgolion gyda trefniadau Optimeiddio Cyflawni ar waith.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ysgolion Gwynedd i fabwysiadu templed polisïau TG.**
- **Cwblhau darpariaeth hyfforddiant ar y safonau diogelwch/digwyddiadau seibr i ysgolion Gwynedd.**
- **Tystysgrifau cynnal a chadw cabinet rhwydwaith yr ysgolion yn cael eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Digidol Addysg.**

Atodiad 3

# CLUDIANT YSGOLION

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant am ddim i blant ysgolion Uwchradd a Chynradd sy'n disgyn i'r gwahanol gategorïau o fewn y Polisi Cludiant Ysgolion, yn ogystal ag i bobl ifanc ôl-16 sy'n mynychu colegau. Ar gyfer unrhyw blant nad ydynt yn cyrraedd gofynion y meini prawf, mae'n bosibl gwneud cais am unrhyw seti gwag, ble mae ffi yn daladwy.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a darparu gwasanaeth cludiant ysgolion di-dâl i blant cymwysedig yn unol â Deddf Addysg 1996, yn ogystal â threfniadau casglu incwm ar gyfer plant anghymwys. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau tocynnau teithio a chadarnhau cywirdeb gweinyddu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 4 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Defnyddir system '*Synergy*' ar gyfer cofnodi manylion plant sy'n derbyn cludiant am ddim, a'r rhai sy'n talu. Mae manylion megis enw'r plentyn, cyfeiriad, blwyddyn ysgol a.y.b. yn cael ei fwydo yma o system 'SIMS', sef system cofnodi ddefnyddir gan yr ysgolion. Tîm Cludiant Amgylchedd sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau, dosbarthu tocynnau bws, codi anfonebau a threfnu cludiant.

5.2 Ar 18/09/24 roedd system '*Synergy*' yn dangos bod 3,186 plentyn yn derbyn cludiant, 3,098 o rhain am ddim. Fel rhan o'r archwiliad gwiriwyd sampl o 40 disgybl roedd yn derbyn cludiant am ddim, 20 o ysgolion cynradd a 20 o ysgolion uwchradd, er mwyn cadarnhau eu bod yn cyrraedd gofynion y meini prawf. Ni ddetholwyd sampl o unrhyw blant yn mynychu ysgolion arbennig, gan fod y penderfyniad i ganiatáu cludiant ar eu cyfer yn cael ei wneud drwy banel, heb feini prawf penodol. O'r sampl a wiriwyd, ymddengys bod pob plentyn yn gymwys ar wahân i un plentyn cynradd. Ymddengys fod y plentyn yn parhau i dderbyn cludiant am ddim, er bod system *'Synergy'* yn cadarnhau ei fod wedi newid cyfeiriad dros 6 mis ynghynt, a bellach ddim yn gymwys, gan ei fod tu allan i ddalgylch yr ysgol. Nododd y Cydlynydd Cludiant nad oedd ysgolion yn rhybuddio'r Tîm pan fo newid mewn amgylchiadau plentyn, a'i fod yn debygol, yn yr achos yma, fod tacsi wedi mynd i hen gyfeiriad y plentyn i'w casglu, gan greu costau diangen i'r Cyngor. Cadarnhawyd nad oedd y plentyn wedi gwneud cais i dderbyn cludiant o'r cyfeiriad newydd.

5.3 Ar 18/09/24, roedd 88 plentyn yn talu am gludiant drwy gynllun Seti Gwag, 19 o blant cynradd, 22 uwchradd, a 47 o blant meithrin. Fel rhan o'r archwiliad gwiriwyd sampl o 20 o'r ceisiadau meithrin, a gwiriwyd cais pob plentyn cynradd ac uwchradd, er mwyn cadarnhau fod anfonebau wedi eu codi. Ar yr olwg cyntaf, ymddengys mai dim ond 21 o'r 88 roedd wedi eu hanfonebu. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Cydlynydd Cludiant nad oedd y system wedi ei ddiweddaru'n llawn ar y pryd, gyda gweddill y sampl (67 plentyn) yn deilwng i gludiant am ddim erbyn hyn. Nododd y Swyddog Cefnogi Systemau fod oedi o wythnos rhwng mewnbynnu gwybodaeth i 'SIMS' a'i drosglwyddo i '*Synergy*'. Adroddwyd hefyd fod problem gyda'r system ers cychwyn y flwyddyn academaidd, yn golygu bod data rhai ysgolion heb ei drosglwyddo o gwbl.

5.4 Ar 16/09/24, roedd y Cyngor wedi cyhoeddi 1,529 o docynnau teithio ôl-16 i ddisgyblion Coleg. Fel rhan o'r archwiliad gwiriwyd sampl o 20 o geisiadau. O'r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod 45% yn byw tu allan i Wynedd ac felly yn anghymwys i'r tocyn. Nodir fod y rhain oll yn geisiadau a wnaethpwyd ar lein. Nododd Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer fod achosion tebyg wedi eu hadnabod yn y gorffennol, yn ogystal ag achosion o fyfyrwyr wedi cyflwyno sawl cais, ac wedi derbyn mwy 'na un tocyn teithio. Cadarnhawyd fod unrhyw docynnau annilys yn cael eu dirymu, ond fod y myfyrwyr hynny yn gallu ail gyflwyno ceisiadau ar lein, sydd yn cael eu cymeradwyo eto. Eglurwyd fod hyn wedi ei amlygu i Reolwr Cludiant Addysg, a'u bod eisoes yn cyd-weithio gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i ail gyflwyno'r gwiriadau ar y system gwneud cais ar lein.

5.5 Pan mae disgybl yn colli tocyn bws, rhaid talu £5 er mwyn cael un newydd. Yr ysgolion unigol sydd yn gofyn i'r Tîm Cludiant greu tocyn newydd, ac yn gyfrifol am gasglu'r incwm a'i dalu mewn i'r Cyngor. Er nad yw'r Tîm Cludiant yn cadw cofnod o geisiadau am docynnau bws ychwanegol, amcangyfrifwyd eu bod wedi creu dros 50 ym mis Medi 2024. Cadarnhaodd Cyfrifydd Grŵp Ysgolion mai dim ond £20 o incwm sydd wedi ei dderbyn hyd yn hyn yn 2024/25 i gyfrifon Addysg ar draws yr ysgolion. O ganlyniad, cytunodd y Cydlynydd Cludiant i gofnodi ceisiadau ac anfon y wybodaeth at sylw'r Cyfrifydd Grŵp ar ddiwedd pob tymor.

5.6 Yn dilyn honiad neu gŵyn, mae'r Tîm Cludiant yn aml yn cynnal ymweliadau i ysgolion ar amseroedd agor/cau, er mwyn gwirio fod y cwmnïau tacsis neu fysus yn gweithredu fel y disgwyl. Ar gychwyn yr archwiliad gwelwyd nad oedd yr ymweliadau yn cael eu cofnodi, gan ei gwneud yn anodd adnabod patrymau neu ddysgu gwersi. Erbyn hyn mae cofnodion priodol yn cael eu cadw, a'u rhannu gyda Rheolwr Cludiant Addysg. Yn dilyn un ymweliad ag ysgol, darganfuwyd bod dros 80% o'r disgyblion heb docyn bws, h.y. unai wedi colli eu tocyn, heb dderbyn tocyn, neu wedi ei adael adref. Adroddwyd hefyd bod un disgybl yn teithio tu allan i ddalgylch yr ysgol ac felly ddim yn deilwng i'r cludiant. Yn dilyn yr ymarfer, gwelwyd fod e-bost gyda'r casgliadau wedi ei anfon at Bennaeth yr ysgol ac i'r cwmni bws, yn gofyn i atgoffa rhieni fod angen i bob disgybl gael tocyn bws i'w ddangos i'r gyrrwr, gan bwysleisio fod modd gwrthod cludiant i unrhyw un heb docyn. Ers hynny, gwelwyd bod sawl cais am greu tocyn bws newydd wedi eu derbyn.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sefydlu trefn ffurfiol ar gyfer hysbysu'r Tîm Cludiant o unrhyw newid sylweddol ar 'SIMS/Synergy'.**
- **Cynnal gwiriadau a chysoni data i sicrhau fod y wybodaeth ar systemau 'Synergy' a 'SIMS' yn gywir ac yn gyfredol, gan drefnu i gywiro unrhyw ddiffygion yn brydlon.**
- **Parhau i gyd weithio gyda gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer ail-gyflwyno'r nodwedd o gynnal gwiriadau ar y system gwneud cais ar-lein.**
- **Ystyried opsiynau amgen ar gyfer codi ffi am gludiant ôl-16.**
- **Cadw cofnodion priodol o geisiadau am docyn bws newydd, gan adrodd i'r Cyfrifydd Grŵp ar ddiwedd pob tymor.**

Atodiad 4

## TREFNIADAU DOSBARTHU BINIAU

**1. Cefndir**

1.1 Mae’r stoc o finiau a chyfarpar gwastraff y Cyngor yn cael eu cadw yn depo Llwyn Isaf, Clynnog, ble mae criw o 8 gyrrwr yn gyfrifol am ddosbarthu’r offer ar draws Gwynedd. Mae’n bosib cyflwyno ceisiadau dros y ffôn neu ar-lein, ac mae disgwyl fod pob archeb yn cael ei dosbarthu o fewn 30 diwrnod.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer dosbarthu biniau i drigolion a busnesau Gwynedd, gan ystyried y costau ymglymedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu'r prosesau, rheolaethau a dogfennaeth sy'n gysylltiedig â dosbarthiad biniau, yn ogystal ag ymweld â’r storfa ar gyfer cynnal gwiriad stoc.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau’r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Ymwelodd yr Archwiliwr â depo Llwyn Isaf ar Dachwedd 21ain, 2024. Gwelwyd fod y prif giatiau yn caniatáu mynediad nid yn unig i’r depo, ond hefyd i gwmni ‘Biogen,’ sydd â ffatri ar y safle. Cadarnhawyd fod y giatiau yn cael eu cloi ar ddiwedd pob dydd gan aelod o staff ‘Biogen’. Nodwyd nad oedd unrhyw gamerâu diogelwch yn y depo. Gwelwyd hefyd bod ‘forklift’ bychan yn cael ei chadw yn y warws, a bod y faniau yn cael eu llwytho'r noson cynt gyda chyfarpar y diwrnod wedyn. Eglurodd yr Arweinydd Tîm fod allweddi’r ‘forklift’ a'r faniau yn cael eu cadw mewn sêff, dan glo yn y swyddfa. Gwelwyd fod biniau ac eitemau stoc mawr wedi eu cadw’n ddiogel mewn rhan arall o’r depo, gyda giatiau wedi eu cloi, a staff y depo yn unig gyda mynediad.

5.2 Ymddengys nad yw'r warws wedi cael ei gynnal i safon dderbyniol. Mae'r adeilad yn damp, gyda'r to yn gollwng ac yn fregus. Nododd yr Arweinydd Tîm fod Swyddogion o'r gwasanaeth Eiddo eisoes wedi eu rhybuddio am beidio mynd mewn i'r adeilad yn dilyn eira trwm, gan fod risg i'r pwysau ychwanegol ar y to achosi iddo ddisgyn. Gwelwyd fod y bocsys cardfwrdd sy'n dal y cyfarpar wedi pydru, ond fod yr offer oddi fewn mewn cyflwr derbyniol.

5.3 Gwelwyd fod nifer fawr o hen finiau/cyfarpar wedi torri yn y depo. Cadarnhawyd fod trefniadau ar y gweill i'r rhain cael eu casglu ar gyfer eu hailgylchu i gynhyrchu incwm i'r gwasanaeth.

5.4 Mae cwmni yn ailgylchu hen finiau ar ran y Cyngor ac yn talu £160 y tunnell. Er bod anfoneb eisoes wedi ei godi ar gyfer casgliadau 2024, darganfuwyd nad oes anfoneb wedi ei godi eto ar gyfer casgliadau 2023, sy'n cyfateb i 17.42 tunnell, £2,787.68. Cadarnhaodd Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu-Sicrwydd Ansawdd y byddai'n sicrhau fod anfoneb yn cael ei chodi yn syth.

5.5 Darganfuwyd yn fuan nad oedd unrhyw fonitro o lefelau stoc, na gwiriadau stoc yn cael eu cynnal. Cadarnhawyd fod y gwasanaeth yn y broses o gaffael system newydd, byddai'n galluogi nid yn unig monitro stoc yn effeithiol, ond hefyd i optimeiddio teithiau, gyda'r gobaith o allu lleihau'r defnydd o gerbydau hurio. Mae 4 allan o 8 o gerbydau'r gwasanaeth ar hyn o bryd wedi eu llogi, ar gyfanswm cost o £90.41 y dydd.

5.6 Am y cyfnod 10/10/2024-16/10/2024 roedd y gwasanaeth wedi derbyn 325 o geisiadau am gyfarpar. Detholwyd sampl o 25, gan wirio eu bod wedi eu dosbarthu o fewn y 30 diwrnod disgwyliedig. Ar gyfer pob cais yn y sampl, roedd y cyfarpar wedi eu dosbarthu o fewn 21 diwrnod o dderbyn y cais.

5.7 Gwelwyd nad ydi unrhyw un o'r 8 gyrrwr sy'n dosbarthu cyfarpar wedi darllen unrhyw un o bolisïau'r Cyngor, gyda 7 heb gwblhau unrhyw un o'r modiwlau E-ddysgu mandadol ychwaith.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Y warws yn cael ei gadw dan glo, gan ystyried buddsoddi mewn camerâu diogelwch.**
- **Bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn effeithiol.**
- **Asesu priodoldeb y depo, gan ystyried opsiynau ar gyfer cynnal y warws.**
- **Monitro rheolaidd o gyflwr stoc y warws, gan waredu unrhyw stoc wedi ei ddifethaf.**
- **Bod unrhyw finiau sy'n disgwyl i gael eu hailgylchu yn cael eu cadw'n drefnus, ac mewn man diogel.**
- **Bod incwm o werthu hen finiau yn cael ei hawlio yn brydlon.**
- **Bod pob gyrrwr yn cwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor .**
- **Bod pob gyrrwr yn derbyn polisïau mandadol, megis Diogelu.**

Atodiad 5

## RHEOLAETH CATEGORI - AMGYLCHEDDOL

### 1. Cefndir

1.1 Mae Rheolaeth Categori yn ddull o bwrcasu sydd yn rhoi pwyslais penodol ar amcanion strategol y Cyngor i gadw'r budd yn lleol ac i arbed arian, yn ogystal â chwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth y Cyngor. Mae'r categorïau gwariant yn feysydd gwariant ehangech na ffiniau adrannol y Cyngor. Mae tri tîm ar gyfer rheolaeth categori o fewn y Cyngor sef, Tîm Categori Amgylcheddol, Pobl a Chorfforaethol.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal adolygiad ar sampl o gytundebau er mwyn gwirio datblygiad y Cyngor o gynlluniau categori amgylcheddol a gwirio bod y Tîm Categori yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 2 |
| **ISEL** | 0 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniwyd gwybodaeth ar brosesau pwrcasu nwyddau/gwasanaethau drwy'r Gwasanaeth Rheolaeth Categori a darganfuwyd nad oes gan y Gwasanaeth bolisïau penodol, ond bod y timau yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r Uned Gaffael wrth bwrcasu nwyddau/gwasanaeth i'r adrannau, sydd yn briodol. Yn ogystal, mae Deddf Caffael 2025, newydd ddod i rym ym mis Chwefror 2025, golygai bod llawer o newidiadau bydd angen i'r Gwasanaeth eu cynnwys fel rhan o'u prosesau. Mynegwyd bydd y tîmau yn derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf, ble bydd 9 modiwl yn cael ei rhedeg gan Lywodraeth y DU, a 6 modiwl gan Lywodraeth Cymru gydag arholiad ar y diwedd.

5.2 Gwelwyd bod llawer o waith wedi ei wneud gan yr Uned Gaffael i hyrwyddo’r Tîm Categori Amgylcheddol ar draws y Cyngor. Mae newyddlen yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC yn cynnwys gwybodaeth ar bwrpas a swyddogaethau’r tîm gan gynnwys darparu rhestr o is-gontractwyr, cwmnïau ar gyfer gwaith achlysurol, a gwaith sydd werth llai na £50,000 ac sydd ddim mewn cytundeb, fel bod staff yn gallu defnyddio cyflenwyr sydd eisoes wedi bod trwy’r gwiriadau priodol, megis yswiriant, tendrau a’r fframwaith.

5.3 Derbyniwyd copi o’r daenlen sydd â chofnod o gontractau cyfredol. Darganfuwyd mai unwaith mae’r cytundeb wedi ei osod, mae’r cyfrifoldeb o reoli’r cytundeb yn trosglwyddo i’r rheolwyr perthnasol, ac eglurodd y Rheolwr Rheolaeth Categori Amgylcheddol mai dim ond monitro sylfaenol ar y cytundebau mae’r tîm yn ei ddarparu i’r rheolwyr perthnasol.

5.4 Darganfuwyd unwaith mae cytundeb wedi ei osod a ble mae’r Tîm Categori wedi derbyn y ddogfennaeth wreiddiol e.e. yswiriant, tystysgrifau ayb i ddilysu’r cytundeb, gwelwyd nad oes cais bellach i feddiannu’r dogfennau cyfredol drwy fywyd y cytundeb. Ymddengys nad yw’r rheolwyr perthnasol yn gwirio hyn chwaith. Derbyniwyd eglurhad gan y Rheolwr Categori Amgylcheddol bod rhwystrau megis diffyg adnoddau, llwyth gwaith ayb yn golygu nad oes modd dilyn i fyny ar y dogfennau yma. Mynegwyd bod trafodaethau wedi bod yn ddiweddar gyda Tîm Systemau Integredig yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC i drafod monitro’r cytundebau, gan gynnwys yr elfen buddion cymdeithasol, gyda'r gobaith o fonitro holl elfennau’r cytundebau drwy un system weithredol.

5.5 Detholwyd sampl o 5 cytundeb i’w gwirio. O’r sampl a ddetholwyd, gwiriwyd am unrhyw waith monitro oedd wedi digwydd yn dilyn sefydlu’r cytundeb. Derbyniwyd tystiolaeth bod 2/5 cytundeb wedi cael eu monitro’n briodol, h.y. yn ymddangos eu bod wedi cynnal gwiriadau rheoli perfformiad y cyflenwr. O’r gweddill, roedd un o’r cytundebau yn defnyddio cwmni allanol fel gweinyddwr y contract, ac nid oedd yn berthnasol ar gyfer y ddau gytundeb arall sydd yn gytundebau prynu’r nwyddau fel sydd angen ac os oes unrhyw faterion yn codi mae hyn yn cael eu datrys o fewn termau ac amodau’r cytundeb.

5.6 Mae Cadw’r Budd yn Lleol yn rhan o gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Gwelwyd bod y Gwasanaeth yn mesur perfformiad y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol drwy gyfarfodydd herio perfformiad sy’n cael eu cynnal pob chwe mis, sydd yn cynnwys mesuryddion perfformiad fel gwerth am arian, lleihau carbon, gwerth cymdeithasol, a’r ganran lleol.

5.7 Gwiriwyd sampl o gontractau i sicrhau bod cytundebau mewn lle a bod gweithgareddau caffael megis dyfynbrisiau, tendro a hysbysebu wedi'u cwblhau a'u dilyn yn gywir. Gwelwyd bod y cytundebau ar gyfer y sampl o gyflenwyr a ddetholwyd yn bodoli, a bod y tendrau wedi'u sgorio a'u hysbysebu yn briodol.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Tîm Categori Amgylcheddol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Trosglwyddo cytundebau i un system fel bod modd monitro statws y cytundebau gan gynnwys adnabod pryd mae dogfennau perthnasol angen eu hadnewyddu a gweithio tuag at allu anfon e-byst atgoffa i gwsmeriaid.**
- **Trosglwyddo unrhyw ymarferiadau monitro trwy gydol oes y cytundebau ar y system fel bod modd i reolwyr cyfrifol ddiweddaru'r system, ac yn caniatáu i'r Tîm Rheolaeth Categori wirio statws monitro'r cytundebau.**
- **Trefnu bod y rheolwyr perthnasol yn ymwybodol o'r Ddeddf Caffael newydd a bod modd iddynt drefnu hyfforddiant os oes angen.**
- **Trefnu bod pob aelod o staff Tîm Rheolaeth Categori yn derbyn a chwblhau hyfforddiant perthnasol yn brydlon.**
- **Cynnal gwiriadau ar hap o sampl o gontractau i sicrhau bod gweithdrefnau cywir wedi eu dilyn a darparu cywiriadau/gweithrediad ble'n berthnasol.**

Atodiad 6

**DILYNIANT – RHEOLAETH CATEGORI CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Rheolaeth Categori Corfforaethol fel rhan o gynllun 2023/24, er mwyn gwirio bod trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod y Cyngor yn gwario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth a'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y tîm Categori Corfforaethol a'r tîm Caffael wedi gweithredu ar y camau cytunedig ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 2 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Cytunwyd ar dri cam gweithredu o'r archwiliad gwreiddiol yn Ebrill 2024 (dau sgôr risg o 6 ac un sgôr o 12). Gwelwyd bod tri o'r camau wedi cael eu gweithredu'n rhannol ac adroddir y casgliad isod. Tra bo cynnydd ar y camau gweithredu cytunedig wedi ei wneud, mae'r tîm Categori a'r tîm Caffael yn cydnabod fod gwaith pellach eto i'w wneud. Er hynny, gwelwyd nad yw'r gweithrediadau hyd yma yn cael effaith i leihau risg a'r lefel sicrwydd.

5.2 Un o’r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad gwreiddiol oedd bod diffyg dealltwriaeth o Reolaeth Categori ar draws y Cyngor yn gyffredinol a gwasanaethau yn cam ddeall rôl y tîm a chyfrifoldebau'r gwasanaethau. Mynegodd y tîm Categori a’r tîm Caffael bod gwaith wedi ei gynnal ar gyfer codi ymwybyddiaeth o’r cynllun strategol a threfniadau rheolaeth categori drwy ddiweddaru’r safleoedd mewnrwyd, safle allanol a dolen ‘Prynu’n ddoeth’ ar y fewnrwyd. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith ar y gweill.

5.3 Yn ystod yr archwiliad gwreiddiol, gwelwyd nad oedd y rhaglen waith yn gyflawn ac nad oedd cytundebau wedi eu sefydlu mewn sawl achos ar gyfer pob cyflenwr. Adroddwyd o’r rhaglen waith, nad oedd yn bosib adnabod y nifer o gyflenwyr sydd heb gytundebau ffurfiol a’u gwerth ac nid oedd y wybodaeth ar gael i’w derbyn gan y tîm Categori yn ystod yr archwiliad. Mynegodd y tîm Categori Corfforaethol a’r tîm Caffael eu bod yn atgyfnerthu’r neges bod arbenigwyr y maes Categori Corfforaethol angen ymgymryd â’r caffael yn ei meysydd a dim dibynnu yn ormodol ar y tîm Categori, a bod y trafodaethau wedi cychwyn ar ail edrych ar yr arbenigwyr Categori Corfforaethol, a bydd cyfarfodydd pellach i adnabod swyddogion priodol i ymgymryd â’r rôl.

5.4 Yn ogystal, roedd cam gweithredu mewn lle i ymchwilio i gael system fwy priodol ac addas ar gyfer rheoli cytundebau yn hytrach na chadw manylion ar daenlen.

5.5 Mynegodd y tîm Caffael bod angen i’r timau Categori gadw’r gofrestr cytundebau, blaen raglen a’r ddolen ‘prynu’n ddoeth’ yn gyfredol, a bod angen cynnwys contractau dros £2m ar wefan ‘Sell2Wales’, ond nid yw’r trefniadau i roi’r contractau ar y wefan wedi cychwyn hyd yma.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae’r tîm Categori Corfforaethol a’r tîm Caffael wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i godi ymwybyddiaeth am Reolaeth Categori.**
- **Cyfathrebu trefniadau Rheolaeth Categori ymysg arbenigwyr Categori Corfforaethol.**
- **Diweddaru cynnwys y ddolen ‘Prynu’n ddoeth’ ar gyfer y tîm Categori Corfforaethol.**
- **Rhoi blaen rhaglen at ei gilydd i’w gyflwyno ar y ddolen ‘Prynu’n ddoeth’.**
- **Blaenoriaethu rhaglen waith y tîm Categori Corfforaethol.**
- **Ail edrych ar swyddogaeth yr arbenigwyr maes Categori Corfforaethol, a chynnal cyfarfodydd i adnabod swyddogion priodol i ymgymryd â’r rôl.**
- **Ystyried opsiynau ar gyfer meddiannu cyfleusterau fwy priodol ac addas ar gyfer monitro gwybodaeth.**
- **Gweithio tuag at allu anfon e-byst atgoffa i gwsmeriaid oddi ar y system/cyfleusterau newydd.**

# GORAMSER GLANHAU STRYD

## 1. Cefndir

1.1 Mae Adran 89 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn rhoi dyletswydd ar gyrff penodol i gadw tir a phriffyrdd perthnasol maent yn gyfrifol amdanynt yn lân ac yn glir o sbwriel a gwastraff. Mae hwn yn wasanaeth statudol sydd angen ei ddarparu 7 diwrnod yr wythnos, gan gynnwys gwyliau banc. Fodd bynnag, cytundebau 5 diwrnod (Llun-Gwener) sydd gan y gweithwyr. Mae goramser yn cyfrannu yn sylweddol at orwariant y gwasanaeth, ac felly yn destun adolygiad o fewn yr adran yn ogystal ag archwiliad mewnol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu amserlen gwaith glanhau strydoedd a gwagio biniau stryd yng Ngwynedd, yn ogystal â gwirio trefniadau prosesu a dilysu ceisiadau am oramser. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r 'rota' yn ogystal â sampl o geisiadau goramser, gan wirio cywirdeb gweinyddu a phrosesu.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 2 |
| CANOLIG | 5 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Roedd y Tîm Tasg sefydlwyd o fewn y gwasanaeth i adolygu goramser wedi rhannu ffurflenni monitro i'r gweithlu, gan ofyn i unrhyw un roedd yn gweithio goramser am y cyfnod 17/06/24-22/07/24 i adrodd ar eu hamseroedd cychwyn/gorffen, yn ogystal â natur a lleoliad y gwaith. Cymharwyd y data yma gyda gwybodaeth o systemau tracio'r cerbydau, yn ogystal â hawliadau swyddogol am oramser.

5.2 Cafodd yr holl ddata ei rannu gyda'r Archwiliwr, a trefnwyd cyfarfodydd gyda phob Arweinydd Tîm Glanhau Stryd ar gyfer trafod y canlyniadau, ac i weld pe bae unrhyw fodd addasu teithiau i'w gwneud yn fwy effeithiol, gan leihau'r angen am oramser. Ar gyfer pob cyfarfod roedd y Rheolwr Prosiect, Rheolwr Gwasanaethau Glanhau Stryd, Uwch Arweinydd Tîm Glanhau Stryd, Arweinyddion Tîm perthnasol, ac yr Archwiliwr yn bresennol.

5.3 Daeth yn amlwg yn fuan iawn na ellid dibynnu'n llwyr ar y wybodaeth o systemau tracio rhai o'r cerbydau, gyda'r data yn cadarnhau fod rhai cerbydau heb eu defnyddio o gwbl ar ddyddiadau cawsant eu defnyddio, ac amseroedd 'rhoi ymlaen' rhai cerbydau ar achlysur mor gynnar â 2:17 y.b. Eglurwyd bod y gwasanaeth wedi caffael system rheoli asedau bwrdeistrefol newydd sydd â'r gallu i dracio cerbydau i gynorthwyo gydag optimeiddio gweithrediadau'r gwasanaeth. Disgwylir i'r system fod yn weithredol o fewn 6-12 mis.

5.4 Gwelwyd fod gweithwyr o phob ardal (Caernarfon, Bangor, Dwyfor a Meirionnydd) yn aml yn hawlio goramser cyn 5:00 yb sydd yn groes i ofynion Iechyd a Diogelwch. Yn yr un modd, gwelwyd tystiolaeth fod Arweinyddion Tîm yn hawlio goramser ar raddfa tâl Arweinydd (S1), ble tybid mai gwaith glanhau stryd sydd yn cael ei gwblhau, felly dylid hawlio ar raddfa Glanhawr Stryd (GS2).

5.5 Gwelwyd fod nifer o'r gweithwyr wedi cyflwyno ceisiadau swyddogol am oramser am fwy o oriau 'na nodwyd eu bod wedi gweithio ar y ffurflenni monitro. Awgrymodd yr Arweinyddion Tîm fod yr aelodau staff wedi nodi'r oriau anghywir ar y ffurflenni monitro, neu efallai wedi treulio amser ychwanegol yn gwagio neu lanhau'r cerbyd ond heb ei gynnwys ar y ffurflen monitro. Heb Arweinyddion Tîm yn bresennol ar y penwythnosau i gadarnhau oriau'r gweithwyr, na system tracio ddibynadwy i ddilysu'r oriau, ni ellid dilysu'r gwir oriau a weithiwyd.

5.6 O'r gwaith archwilio wiriwyd a chadarnhawyd drwy'r Tîm Tasg, darganfuwyd sawl cais am oramser sydd wedi digwydd yn rheolaidd, ac ers peth amser, sydd felly yn rhan o batrwm gwaith y swyddogion erbyn hyn. Cytunwyd bydd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd yn cysylltu gydag Adnoddau Dynol i dderbyn arweiniad pellach ar y mater

5.7 Yn y cyfarfod i drafod goramser Caernarfon, cydnabyddir fod yr holl waith sy'n cael ei gwblhau ar y penwythnosau yn hanfodol, ac y byddai torri ar oramser yn amharu yn sylweddol ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr Uwch Arweinydd Tîm ei fod wedi bod yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer arbed arian. Drwy gyd-weithio â'r Rheolwr Fflyd, gellid ail drefnu teithiau ardal Caernarfon i waredu â 3 cerbyd sydd wedi eu hurio. Byddai hyn yn arbed £30,732 yn flynyddol i'r gwasanaeth. Yn yr un modd, gellid ail drefnu teithiau Bangor i arbed costau hurio un cerbyd (arbediad ychwanegol o £4,000 y flwyddyn).

5.7 Ym Mangor, cydnabyddir fod Bethesda yn derbyn ymweliadau llawer rhy aml. Cytunwyd i newid trefniadau glanhau'r ardal, gan arbed 20 awr o oramser ar raddfa gyflog GS2, pob 4 wythnos. Cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm y byddai'r trefniadau newydd yn weithredol o fis Tachwedd 2024 ymlaen. Ar gyfer Dwyfor, trafodwyd y sgôp o ostwng amlder glanhau rhai ardaloedd i ond un diwrnod ar y penwythnosau, gan fonitro lefelau sbwriel a chwynion am gyfnod. Awgrymwyd i'w wneud am gyfnod treial o 4 wythnos. Yn yr un modd, yn y cyfarfod i drafod goramser Meirionnydd, cytunwyd i lanhau ardaloedd Tywyn a Harlech ond unwaith pob pythefnos am gyfnod treial o 4 wythnos, gan fonitro lefelau sbwriel a chwynion. Byddai hyn yn rhoi arbediad o 24 awr o oramser ar raddfa gyflog GS2, pob 4 wythnos.

5.10 Serch hynny, hyd yn oed ar ôl gweithredu'r arbedion gytunwyd ym mhob ardal, tybir nad ydi'r gyllideb goramser yn ddigonol, heb roi ystyriaeth i'r gwaith angenrheidiol ar benwythnosau i gyflawni dyletswyddau statudol.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu ar system tracio weithredol, gan greu adroddiadau monitro rheolaidd ar gyfer dadansoddi data a gwirio eu priodoldeb o ran gweithio'n effeithiol ac effeithlon.**
- **Hysbysu staff o'r oriau cytundeb gwaith a'r amser caniateir tâl, ac er dibenion iechyd a diogelwch, i beidio cychwyn gweithio cyn 5:00yb.**
- **Fod unrhyw geisiadau goramser yn cael eu gwirio yn erbyn cofnodion tracio cerbydau/rota er mwyn sicrhau bod staff yn hawlio am oramser sydd wedi cael ei weithio yn unig.**
- **Bod ceisiadau goramser yn cael eu monitro, a'u talu ar y graddfeydd cywir.**
- **Gweithredu ar gynlluniau i ail drefnu cylchdeithiau fel y gellir gwaredu â cherbydau hurio, gan fonitro'r effaith bydd hyn yn ei gael ar y gyllideb.**
- **Newid amlder glanhau ardal Bethesda i arbed goramser.**
- **Am gyfnod o 4 wythnos, treialu lleihau glanhau rhai ardaloedd fel modd o arbed goramser gan fonitro lefelau sbwriel a chwynion.**
- **Caffael ail lori ar gyfer casglu gwastraff i waredu a sifftiau dros 12 awr.**
- **Ymholi am ddiweddariad ar y cais diweddar am arian ychwanegol i brynu cerbyd fydd yn caniatáu gwahanu gwastraff ailgylchu.**
- **Sicrhau fod y gyllideb yn ddigonol ar gyfer cyflogau staff, a bod unrhyw anghysondebau yn cael eu hymchwilio a'u cywiro.**
- **Os yn aflwyddiannus mewn ymdrechion i leihau goramser, ystyried cyflwyno cais refeniw i lenwi'r bwlch yn y gyllideb.**
- **Holi cyfrifydd i ddarparu adroddiadau cyllidebol rheolaidd i alluogi monitro amserol o wariant goramser.**

Atodiad 8

**DILYNIANT - MÂN-DDALIADAU**

**1. Cefndir**

1.1 Cynhaliwyd archwiliad Mân-ddaliadau fel rhan o gynllun 2023/24, er mwyn sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer cynnig y cyfleoedd gorau i amaethwyr ifanc Gwynedd a sicrhau bod system rheolaeth ddigonol mewn lle ar gyfer gosod a rheoli mân-ddaliadau. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol adolygwyd polisïau, trafodion y cyfriflyfr a phrosesau casglu incwm, cytundebau a threfniadau cynnal a chadw.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad y dilyniant oedd sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, roedd y dilyniant yn cwmpasu gwirio bod y Gwasanaeth wedi diweddaru eu Polisi, y wybodaeth a gedwir ar gyfer pob mân-ddaliad ynghyd â threfniadau ôl-ddyledion rhent.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Ers cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol, mae'r Rheolwr Stadau wedi newid swydd oddi fewn yr adran, ac ers mis Mawrth 2024 mae Rheolwr newydd wedi cael ei benodi i fod yn gyfrifol am stadau'r Cyngor. Mae Uwch Syrfëwr Stadau hefyd wedi ei benodi i ymgymryd â'r gwaith o reoli'r mân-ddaliadau.

5.2 Cytunwyd ar bedwar cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym Mawrth 2023, a'r pedwar efo sgôr risg o 12. Gwelwyd bod tri o'r camau wedi cael eu gweithredu'n rhannol ac adroddir y casgliad isod. Tra bo cynnydd ar y camau gweithredu cytunedig wedi eu gwneud, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod fod gwaith pellach eto i'w wneud. Er hynny, nid yw'r gweithrediadau hyd yma yn cael effaith i leihau risg a lefel sicrwydd yr adroddiad ac o ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig.

5.3 Un o'r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad gwreiddiol oedd anghysondebau yn nhrefniadau'r gwasanaeth oherwydd nad oedd y Polisi Mân-ddaliadau wedi ei ddiweddaru er mwyn cynnwys gweithdrefnau presennol. Er bod hyn yn parhau heb ei weithredu, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod fod angen diweddaru'r polisi.

5.4 Gwelwyd o'r archwiliad gwreiddiol nad oedd y wybodaeth ddelir gan y Gwasanaeth am y mân-ddaliadau yn gyflawn. Gwiriwyd sampl o 6 mân-ddaliad ble roedd y wybodaeth yn anghyflawn, a gwelwyd bod peth gwaith wedi ei wneud i ddiweddaru'r cofnodion i adlewyrchu'r cytundebau a rhenti oedd wedi eu cytuno, ond mae gwaith pellach i'w wneud o ran ffurfioli prydlesi, adolygu cytundebau a chael cytundebau ysgrifenedig mewn lle. Gwelwyd bod 2/6 eiddo o'r sampl ar raglen gwaith atgyweirio, a bwriad y gwasanaeth yw adolygu'r cytundebau ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Roedd un o'r sampl wedi cael ei symud o bortffolio mân-ddaliadau i bortffolio eiddo cyffredinol oherwydd y newid mewn defnydd, a gwelwyd bod trafodaethau ar gyfer negodi tenantiaeth newydd ar gyfer dau arall o'r sampl.

5.5 Roedd diweddaru cofnodion y gwasanaeth gyda manylion cyfredol y mân-ddaliadau yn un o'r camau gweithredu'r archwiliad gwreiddiol. Gwelwyd bod y gwasanaeth erbyn hyn yn gweithio oddi ar ddogfen newydd sy'n cynnwys rhestr o holl fân-ddaliadau cyfredol y Cyngor gyda gwybodaeth manwl am yr eiddo, tenantiaid, taliadau, materion cynnal a chadw, cyflenwad dwr, a nodiadau manwl pellach ar gyfer pob mân-ddaliad. Er bod gwaith pellach i wneud gan fod llawer o'r wybodaeth hanesyddol yn debygol o fod ar ffeiliau papur, mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn ymwybodol o statws y mân-ddaliad ac yn cadw'r rhestr yn gyfredol.

5.6 Yn ystod yr archwiliad gwreiddiol gwelwyd 8 enghraifft o anghysondebau rhwng y swm rhent blynyddol a nodir ar daenlen y Gwasanaeth a'r hyn sydd wedi ei anfonebu i'r tenant. Mynegodd y Gwasanaeth bod gwaith wedi ei wneud o ran yr anghysondebau, a'r cofnodion yn gyffredinol wedi eu haddasu i adlewyrchu'r rhent cywir.

5.7 Risg arall a amlygwyd yn yr adroddiad gwreiddiol oedd diffyg gweithredu ar ôl-ddyledion ac esiamplau hanesyddol o anfonebau rhent blynyddol yn parhau yn ddyledus. Derbyniwyd copi o adroddiad ôl-ddyledion diweddar a gwelwyd bod y gwasanaeth wedi gweithredu ar mwyafrif y dyledion hanesyddol. Gwelwyd bod rhai ôl-ddyledion yn parhau i fodoli, ond bod y gwasanaeth yn ymwybodol ohonynt, wedi sefydlu trefniant talu ac yn gweithio gyda Cyllid i roi sylw i unrhyw faterion.

6. **Camau Gweithredu**

**Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Diweddaru Polisi Rheoli Mân-ddaliadau er mwyn sicrhau cysondeb, gan gwmpasu e.e. cyfrifoldebau, trefn gosod yr unedau, adolygu rhent, adennill dyledion a gweinyddiaeth fewnol.**
- **Parhau'r gwaith i ffurfioli prydlesi ac adolygu cytundebau unwaith mae gwaith wedi ei gwblhau ar y mân-ddaliadau.**

Atodiad 9

# GRANT ATAL DIGARTREFEDD

## 1. Cefndir

1.1 Dyrannodd Llywodraeth Cymru £1.09m o grant i Wynedd yn ystod 2023-24 fel rhan o ymgyrch atal digartrefedd, wedi ei rannu i elfen 'Neb heb help' (£597k) i ariannu cymorth megis llety dros dro ac elfennau cefnogol na ellir eu hariannu drwy y Grant Cymorth Tai, £433k i atal digartrefedd yn ôl disgresiwn i'w ddefnyddio'n hyblyg i atal digartrefedd a chefnogi mesurau sy'n lleihau dibyniaeth ar lety dros dro, a £60k i ariannu swydd Cydlynydd Strategol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb y tystysgrif archwilio ar gyfer 2023-24 drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| CYFYNGEDIG | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 0 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigyrau y tystysgrif archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio i'r ffigyrau.

5.2 Gwelwyd na chafodd y rhandaliadau grant eu talu i'r Awdurdod hyd nes Ionawr 2025, yn dilyn cyflwyno hawliad am y flwyddyn gyfan yn lle ar sail chwarterol, sydd ddim yn unol â phroffil talu'r llythyr cynnig grant. Mae'r llythyr cynnig grant yn nodi fod angen hawlio'r cyllid yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru, ac maent yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig grant yn ôl petai'r Cyngor ddim yn eu hawlio yn brydlon. Roedd newidiadau staffio o fewn y Gwasanaeth a'r Adran Gyllid wedi cyfrannu at yr oediadau, ynghyd ag ymholiadau niferus ar y ffurflenni hawlio gan Lywodraeth Cymru.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cwblhau a chyflwyno hawliadau grant 2024/25, ynghyd â'r dogfennau cefnogol yn amserol.**